



Campweithiau'r mis

Keith o Brien (y ceirw danas), Graham Williams (lindysen gwyfyn yr ymerawdr a'r ganrhi goch arfor), ac Alun Williams (mantell dramor)

Hyrddod Llydaw



'Di hen arfer gweld ryw hanner dwshin ar y mwyaf yn noc Fictoria Caernarfon. Heddiw, oddeutu 200 o **hyrddod llwyd** yng nghamlas de Quai yn Kemper, Llydaw.

Graham Williams

Dyma farn arbenigol Sion Roberts ar y pysgod yn y llun: "*Chelon labrosus*; hyrddyn (llwyd) gweflog. Yr enw Llydaweg yw: *meilh kozh* = 'hyrddyn hen'... dwn i ddim pam yr enw yma, ond mae yn gallu byw ~ 20 mlynadd. Anodd gwahaniaethu rhwng y 'sgodyn hwn a *Liza ramada*: y hyrddyn (llwyd) minfain (enw arall arno yw hyrddyn brych). Rhaid gweld ceg y 'sgodyn i wahanieuthu rhyngddynt. Tybiaf mai *Chelon labrosus* sydd yn y ddelwedd ac nid *Liza ramada* oherwydd eu maint."

Sion Roberts

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk

"Welish i riw lizard ar wal..."




Madfall cloddiau cyffredin,
Podarcis muralis
Alba la Romaine, Ffrainc

"Welish i riw lizard ar wal yn ffrainc" meddai Tomi Llywelyn mewn tecst ar ddiwrnod ei ben blwydd yn 13 oed ("hogyn mawr rwan" - medda boring Taid) ar ei wyliau yn ardal Alba la Romaine, Ardèche, de Ffrainc. Gwaith rwan i Taid trio nabad y creadur - Gwaith Gwaith Gwaith!!!

OK ma' Taid wedi bod trwy'r bwc-o-lusards a dyma'r gorau alla'i wneud - un ai *Psammmodromus algirus* (samodromws mawr yn yr heniaith!) neu *Podarcis muralis* (madfall cloddiau cyffredin). Unrhyw welliant ar hynny? Does 'run o rhain i gael yn Nghymru.

Meddai'r arbenigwraig Liz Howe o CNC: "Yes it does look like common wall lizard to me. *Psammmodromus* is more common in Spain and is a very chunky beast. It is also 'very scaly' and this seems quite smooth. Hope that helps"

Morhwyaden y gogledd - Porth Colmon



Dim fy llun i ydi hwn ond fe welsom un o'r rhain - Morhwyaden y Gogledd (Velvet Scoter) - Porth

Colmon 24 Gorffennaf

Rhys Jones yn dweud: "Ia dyna di hwnna - neu honna mae'n debyg. Nodweddion - streipen wen (*speculum* gwyn) weithia yn gudd ond amlwg pan yn hedfan. Y ddau patch gwyn ar y wyneb-er mi all Surf Scoter ifanc neu iar ddangos rhwbath tebyg. Pig hir - bron fel Eider ond ddim cweit ac yn *concave* tua'r bôn. Y ffordd dwi nabad nhw ar y môr yn bell yn y gaeaf os yn methu gweld dim byd ond *silhouette* ydi eu bod yn fwy, a mwy nobl na môr-hwyaid duon, a bod eu gyddfau, pan yn eistedd i fyny yn iawn, ddim fatha hon, fel colofn fach- mae gwddf mor-hwyaid duon yn culhau yn y canol hefo "waist". Felly mae na olwg bron yn gyhyrog ar forhwyaid y Gogledd"

Mae erthyglau Gwilym Morris Jones yn Eco'r Wyddfa yn crisialu llawer i agwedd ar fywyd a gwaith yn yr hen 'Weun'. Dyma rai pigion ohonynt. Mae GMJ yn frodor y Weun a mab y ddiweddar Mary Awstin Jones, gwraig ddiwylliedig o'r pentref a gyfrannodd gyfoeth o wybodaeth i draethawd doethuriaeth y Dr. John Owen Huws ar lèn gwerin y cylch. Mae pytiaau eraill o erthygl Gwilym o Eco'r Wyddfa i'w gweld yma. Yn amlwg roedd ffatri wlân Waun Dreflan yn ganolbwynt i fywyd ac economi'r pentref.

Y Ffatri Wlân a'r mân bentrefi

"Tybed faint o drigolion y Waunfawr heddiw sydd yn gwybod, neu efallai wedi clywed am yr hen Ffatri Wlan oedd yn bodoli yn y pentref yn yr hen amser. Roedd Waunfawr yn y dyddiau cynnar wedi ei rannu yn fan bentrefi ar ymylon y corsdir, gyda enwau arnynt fel, Treflan, Ty Ucha r Ffordd, Ty'n Gerddi, Bryn Eithin, Bryn Pistyll, Tai Isa, Penra Waun a Hafod Olau. Tai bychain unllawr oedd y rhan fwyaf o'r cartrefi gyda, dau le tân a siambr fechan i gysgu ynddi. Yn ardal Treflan, neu Waun Dreflan fel yr adwaenid yn y ddeunawfed ganrif, roedd yr hen Ffatri Wlan yn ffynnu ac yn ei hanterth gyda nifer o wehyddion yr ardal yn cael eu cyflogi i nyddu gwahanol frethynnau o ddilladau, gwlanenni, gwrthbannau, a charthenni"

Roedd y gwaith o gyflenwi anghenion y ffatri yn cael ei rannu gan y pentref cyfan - fel hyn:

".....rhaid oedd i'r trigolion ar pob galwad, ddefnyddio'r ty-bach yng ngefn y ty neu waelod yr ardd, ar waethaf y tywydd. Gan fod hyn yn creu anhwylostod yn y nos, cedwid potyn pwrpasol, 'pot golch' fel y'i gelwid o dan y gwely ar gyfer galwad natur. Ymhen ychydig ddyddiau, deuai dyn o'r Ffatri Wlan o gwmpas yr ardal gyda throl a cheffyl i gasglu cynnwys y potiau a'i dywallt i gasegenni pwrpasol yng nghefn y drol a'i gludo yn ôl i'r ffatri. Unwaith yn y ffatri, tipiwyd y gwlan yn y casgeni a'i adael am ychydig amser i socian. Wedi iddo socian, ei osod fel blanced neu gynfasen ar y llawr yn barod i'w hollti'n fan sdribedi o edafedd. Byddai'r lleithder a'r amonia yn y golch wedyn fel olew yn hwylyso'r broses nyddu. Wedi eu nyddu, golchwyd y gwlanenni yn wyn ac yn lan yn y nant fechan oedd yn llifo ychydig latheni oddiwrth yr adeilad i wared a'r budredd ac effaith y golch oddi arnynt. Yna, gosodwyd y gwlanenni o flaen y tân neu allan yng ngwres yr haul i sychu. Anodd credu heddiw y fath arogl fyddai'r gwehyddion druan yn gorfod ei ddiode yn y ffatri yr adeg honno."

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr hen ffatri wedi hen ddadfeilio a throi yn furddun ac mae olion yr hen le i'w weld ar y safle hyd heddiw. Mynnai y diweddar annwyl Robot Griffith, Ty 'Ronnen, Waunfawr yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf, fod ganddo yn ei feddiant garthen oedd wedi ei gwneud yn yr hen Ffatri Wlan. Ar y garthen roedd patrwm o gastell Caernarfon mewn lliwiau coch a glas tywyll, a chadwai'r garthen ar ei wely i'w gadw'n gynnes yn y nos. Tybed os oes rhywun heddiw a charthen o'r hen Ffatri Wlan Treflan yn eu meddiant.

Mae yna un garthen o Ffatri Wlan Niwbwrch yn eiddo i Einir Thomas (gweler [Bwletin 101](#), tud. 4)



Peidiwch byth a digalonni

Gŵyl y Gwyll Tregarth

Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd

18 Awst 2017



Peidiwch byth a phwdu o flaen arolygon tywydd gwael. Cynlluniwch am y tywydd gorau ac addaswch os bydd raid wrth fynd ymlaen. Dyna yn sicr oedd gwrs dwy noson Gwylliaid Llên Natur yn Nhregarth ym mis Gorffennaf ac 18 Awst 2017.

Roedd y ddwy noson yn hynod debyg: arolygon o wynt a glaw dros nos, glaw mawr tua 5yp, codi erbyn amser cychwyn y noson, ac yna amodau perffaith i astudio ystlumod a gwyfynod yn eu cynefin. Roedd y duwiau o'n plaid! Canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Hydref ddiwedd Gorffennaf?



Lluniau bore 'ma yn ardal Glynllifon-Pontllyfni, Caernarfon, 28 GORFFENAF (dal yn Orffennaf! 2017)

DB

Sut flwyddyn oedd hi yn y perthi acw am fwyar, llus ac eirin? Gawsoch chi gnonod ar y mwyar? Mwy am hyn tro nesaf

Cyflog ci ynteu wy 'di waldio



"Tynnais y llun ger Llyn Brenig, tyfu ar foncyff coeden pin, Awst 2ail." meddai Alun Williams, sydd eisiau mwy o wybodaeth.

Dyma'r naturiaethwr Andrew Graham o Ddolgellau: "*I'm definitely not an expert.. However, I do agree that this is Fuligo septica – a common sight in the conifer woods at this time of year. An indicator that summer is passing!*"

Yn ôl Wikipedia: "*The first description of the species was provided by French botanist Jean Marchant in 1727, who referred to it as "fleur de tan" (bark flower).*"

Mae'r llysnafedd hon wedi cael ei chymharu â chyfog ci, ŵy 'di waldio a 'blodau rhisgl'. Llysnafedd BLODAU RHISGL amdani? Mwy o ryfeddodau amdano **YMA**

GALW POB PYSGOTWR!



Dyma ddywed y pysgotwr Robin Parry: "Mae sôn wedi bod ers blwyddyn neu ddwy fod niferoedd eog wedi dirywio yn ofnadwy. Ond ers y gwanwyn mae straeon am eog ym mhobman - rwyf wedi siarad efo cyfaill a ddaliodd dri mewn diwrnod ar y Conwy ym mis Mehefin, a sôn bod afonnydd Dwyfor, Glaslyn ac Ogwen yn gweld niferoedd da. Roedd fy mrawd wedi cynhyrfu dydd Sadwrn [22 Gorffennaf], wedi dal dau eog mewn prynhawn ar yr afon Ddwyryd, rhywbeth na gofiodd erioed o'r blaen ym mis Gorffennaf. Ac wedi tymor neu ddau llwm ar y Seiont yn dilyn llygredd Llyn Padarn mae sewin (gwyniada mae'r aelodau yn eu galw) ar hyd y Seiont - mae llun [uchod] o un a gefais nos Wener ac i'r badell aeth hwnnw!"

WEL BYSGOTWYR? BETH YW EICH PROFIAD CHI?

Nid dyna brofiad pawb chwaith (meddai Rhys Llywelyn):

"Mae hyn yn dipyn o syndod, mi o'n i'n siarad yn y sioe â chyfaill o CNC oedd yn son am dymor gwaethaf y Tywi ers blynnyddoedd. Ddim wedi clywed lot o newydd da o unman arall chwaith."

Wedi bod yn meddwl.... dyma lle fysa bag-data yn handi (a ffordd o ddangos i bysgotwyr bod gwerth mewn cofnodi bagia os nad ydyn nhw yn gwneud eisoes). Pa ddata mae CNC yn eu casglu gan bysgotwyr fel amod ar drwyddedi? Ydi'r data sy'n cael ei ddal gan y Cymdeithasau Pysgota unigol yn fwy, llai ta'n wahanol i'r data-trwydded?

Mogrug hedegog



Mae'n ddiwrnod y morgrug ehedog heddiw mae'n rhaid yn Llandudno. (Gorffennaf 17).

Bu'r gwyfanod penwaig yn heidio ar eu holau ar Greigiau Rhiwledyn.

Gareth Pritchard

Dyma gafodd Gareth wythnos dda ar ôl hynny yn 2011. Mi gofnododd ar y pryd:

"Heno, (Gorffennaf 26ain) 'roedd yna gannoedd ar gannoedd o wylanod (a rhai jac dos) wedi glanio ar gae ar lethrau Rhiwledyn (Gogarth Fach), Llandudno.

Llwybr Llaethog Trawsfynydd



Llwybr Llaethog a seren wib yn Nhrawsfynydd 25 Gorffennaf 2017. Roedd yna **storm o ser gwib** tua'r 12-13 Awst. Mwynhewch eich trem ar y nen

Brychan llwyd dau smotyng



BRYCHAN LLWYD DAU SMOTYNG yn y trap bore yma (erioed wedi gweld un o'r blaen i mi wybod - digon hawdd cymysgu efo cant a mil o rai eraill tebyg... mwn!). Dydio ddim yn anghyffredin chwaith.

Cofiwch glicio ar y geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth

Enfys isel


Enfys bore ma (2 Awst) o Waunfawr 5 munud i 10.

Gill Brown



Pa ffactorau sydd yn pederfynnu uchdwyr enfys. Nid uchdwyr yr haul yn amlwg; pythefnos wedyn, ac awr ynghynt cafwyd yr enfys hon ar y dde.

Diolch i Gwyn Edwards dyma gyfeiriad yn Scientific American "*What determines the size of a rainbow*". Rhybydd: mae yna waith darllen (rhywun yn cynnig crynodeb?)



Had yr helyglys



Mae'r HELYGLYS HARDD wedi bod yn bwrw ei had ers wythnos, yn helaethach pob dydd ar yr A55 i Fodedern wrth fynd am yr Eisteddfod. Ydych chi wedi clywed am yr helyglys hardd (*rosebay willowherb* yn Saesneg). Yn sicr rydych chi wedi ei weld o - mae o'n frith yn y cloddiau ymhobman.

Ydi hi wedi'ch taro chi erioed pam nad oes enw cyfarwydd ar y planhigyn hwn (fel sydd efo **BYSEDD Y CŴN*** a'r holl enwau lleol Cymraeg eraill sydd ar hwnnw)? Yr ateb yw, dwi'n tybio, mai planhigyn sydd wedi ymledu a dod yn llawer mwy cyffredin dros y deugain mlynedd diwethaf ydyw - 'chafodd o mo'r un cyfle i dreiddio i'n diwylliant a'n his-ymwybod fel y gwnaeth bysedd y cŵn.

*Helpwch ni i wella'r erthygl Wici hon

Y Cofnod cynharaf o rosebay yn y Tywyddiadur yw Colchester 25 Gorffennaf 1931 (yn nyddiadur Natur Gwladys Higson). Un syml iawn: *rose bay willow herb*. 1788 yw'r cynharaf i *foxglove* (gan foneddigesau Llangollen: *the white Foxglove is a very great curiosity and Very beautiful plant*).

Dilynwch Facebook Llên Natur am ein holl ddigwyddiadau

Coginio corn carw'r môr i ginio



Corn Carw'r Môr. Gwelais yn rhywle ryw dro y dyfyniad yma o lyfr rhent Meillionydd 1729 - '*Paid Hugh Hughes, Cadlan for gathering Samphire.*' All rhywin ddweud wrthai sut mae ei baratoi er mwyn ei fwyta?

Ei stemio am tua 3 munud.

Carys Dafydd

Mi fydda'i yn eu cwcio mewn padell efo ychydig o fenyn a 'mond' chydig o ddwr - stemio yn iachach mae'n siwr!

Luned Meredith

Meddai William Morris wrth ysgrifennu at ei frawd, 13 Medi 1750 (sylwch bod William yn son am SAMPIER yn yr un gwynt):

Anwyl Frawd, Ce's eich llythyr or 8d. Mae'n dda cael clywed eich bod yn iachus, diolch am dipyn o hanes y Bibl, etc. Wfft i'r arian a dalasoch am helcyd y corn carw môr yna ! *A villainous place indeed! I thought the Captain would have been more reasonable in his freight.* Gadewch iddo, cynt y cyferfydd dau ddyn na dau fynydd. *If the liquor about the sampler turns moldy, you must boil strong pickle, viz., salt and water, and add when it's a little cold the same quantity of white wine vinegar, so cover the plant with the liquor; we eat 'em sometimes chopt small and mixt with melted butter with mutton, which is seldom eaten here without 'em.*

Sometimes brought to the table upon a saucer and chopt by the eater as you do capers or other pickles ; if you design to keep 'em long you should pour some melted suet upon 'em to keep off the air. Dyna i chwi'r tu arall fil am naw swllt ar y Failies 13 Medi 1750

Cofiwch bod tri math o SAMPHIRE: ROCK SAMPHIRE, *Crithmum maritimum* ("sampler" [o "Saint Pierre"]) neu corn carw William Morris); GOLDEN SAMPHIRE, (cedowydd suddlon, sampler y geifr); a SEA SAMPHIRE llyrllys (ewch i dudalen 4 y rhifyn [hwn](#)). Ddim yn siwr os ydi corn carw'r môr yn gallu cyfeirio at fwy nag un o rhain ond go brin ag ystyried ffurf dail y *Crithmum*. Ond gan mai at SAMPHIRE mae'r cyfeiriad o Feillionydd, awgrymaf nad CORN CARW (*Crithmum*) sydd debycaf yn fan hyn ond llyrllys (*Salicornia*). Barn rhywun?

Rhowch wybod pa hwyl rydych yn cael gyda'r coginio Morwen - lluniau efallai fel gawson ni o'r madarch

Sgram y shrwmps cyntaf




Pwy sy' angen geiriau??



Fel yn achos y Cymry dydi madarch ddim yn tycio llawer i'r Llydawyr. Ond mae Domini yn Llydawr sy'n coginio fel Ffrancwr! Ac ar ôl sawl Helfa Ffwng yn ei gwmni dwi'n GWYBOD (Gol.)!! Edrych ymlaen at y nesa Dom - gwyliwch y gofod! DB

Enwau'r madarch:
wicsen gron
siantrel
cap tyllog brithgoch
parasol (?)



Cacwn cynffongoch???




Cacwn cynffon coch - **ruby tailed wasp** ar yr hen gêr ceffyl, Ynys Enlli gan Twm Elias. Meddai Twm: ...ffeindiais ar y pŵer ceffyl (*horse whim* [=

o'r geiriadur Saesneg "*a horse-drawn winch formerly used in mining to lift ore or water*") ger yr Abaty, Mehefin 21ain. Roedd hi'n gysgodol a phoeth yn yr haul ar y pryd, tua canol dydd.

Dim y llun gorau yn y byd mae'n siwr fasa Twm y cyntaf i gyfadda ond roedd o ddigon da i'r entomolegydd Mike Howe ddweud hyn:

It is a rubytailed wasp Chrysis sp. There are several species and most are notoriously difficult to identify even down a microscope. They are well called Chrysis as that is what it leads to when looking at a specimen!

Hwn oedd yr union gêr ceffyl y soniodd Twm amdano.



Mae cofnod y cacwn yn gysâct i'r filimedr bron (tasach chi isho cysactrwydd o'r fath!)

Dyma'r cofnod cynharaf a gofnodwyd yn OED o'r *whim* yn yr ystyr yma:

1738 Portland MSS: "*This Lord has destroyed the old ridiculous waterworks and whims that were then when made much in vogue.*"

Does dim cynnig ar etymoleg y gair.

Dawns y pryfed llonydd

Dyma ymateb Morwen Jones i'r eitem "Dawns y Pryfed Hofrol" yn y rhifyn diwethaf a'r cais am enw am *hoverfly*. Dyma Morwen: "PRY LLONYDD yma yn Llŷn... dyna dwi'n ddeud erioed - rhieni o Lanbedrog, Mynytho/Rhoslan".

A dyma gynnig arall gan John Rowlands: "PRY CHWRNAS. Y Swm fydddech yn gael wrth chwara top, neu ym Môn chwrnas".

Clywais hefyd PRY BLODAU (Paul Williams, Blaenau) Gol

Aloewydd



Tynnwyd y llun yn yr Eidal, ger Napoli blwyddyn yn ôl. — at Baia Domizia, Campania, Italia gan Dominig Kervegant. Oes rhywun am fentro deud bed'dy nhw?

Mae'n debyg mai math o *aloe* ydi hwn (mae degau o wahanol fathau). Onid ydi Geiriadur yr Academi yn wych? - 'feddylish i rioed y basa na gynnig Cymraeg ar hwn, ond oes, a dyma fo:

pren alwys (prennau alwys), aloewyddden (aloe wydd), elwydden (elwydd).

Pa un ydi'r gorau i ni safoni. BETH AM BLEIDLAIS?

Barn Luned Meredith: "Ie aloewyddden. Ond oes angen yr 'e'? Ydi'r oe yn sownd? Neu ydw i'n ynganu yn wahanol?"

Dyma'r cyngor gafwyd gan Bruce Griffiths:

"Ceir 'aloe wydd' yn y Beibl (Numeri, XXIV, 7) 'Ymestynnant ... fel aloewydd a blannodd yr Arglwydd' ac yn y 'Welsh Botany' [Hugh Davies], 1813, t.154. Felly, nid bathiad gennyf i yn GyrA yw 'aloe wydd'. Cyddymdeimlaf yn fawr â'r cyfaill a holodd a oes angen yr "-e-"; mae'n dibynnu sut y byddai rhywun, yn Gymraeg, yn ynganu '*aloes*' - digwyddiad prin iawn. Mae'n siwr mai 'e^los' a ddywedai pawb. Mi dueddwn i ddilyn hynny o draddodiad sydd yna (sef 'aloe wydden, aloewydd'). Rhydd i bawb ei ynganu fel y mynno, fel arall ni fyddai gennyf wrthwynebiad i 'aloe wydden, alowydd'. Gellid ysgrifennu 'alo(e)wydden, alo(e)wydd'."

Math o blanhigyn yw *aloe vera* sy'n wyllt yng ngwledydd o hinsawdd trofannol ac fe'i cyneuefir i ddibenion amaeth a meddygaeth. Defnyddir yr alo(e)wydden hefyd i bwrpas addurn ac yn mae'n tyfu dan dan do yn llwyddianus mewn pot.. Fe'i ceir mewn diodydd, eli croen, deunydd ymbincio a thriniaethau at losg ysgafn. Does fawr ddim tystiolaeth wyddonol o'i effeithlonrwydd... **Darllenwch fwy**



Llygad y Dydd

CYMDEITHAS
GWAITH MAES

Gwaith maes afon gan Ysgol y Moelwyn

Aeth criw o flynyddoedd 7 ac 8 draw i wersyll Glanllyn i gael dysgu mwy am sut i fynd ati i fesur sianel afon. Cafwyd arweiniad gwych gan Dafydd Huw a rhanwyd pawb i grwpiau i fynd ymlaen efo'r gwaith mesur. Dyma oedd gan Osian i'w ddweud:

Roedd pawb wedi cael eu rhannu mewn i grwpiau gyda taflen i gofnodi'r mesuriadau. Roedd rhaid gwneud dipyn o bethau gwahanol. Yn gyntaf roedd angen mesur lled yr afon gyda thap mesur. Roedd hyn yn hwyl wrth weld y dŵr yn mynd dros *wellingtons* pawb! Wedyn roedden yn dal y tap yn dyn a mesur y dyfnder ar draws sianel yr afon. Roedd gan pawb ei job wahanol wrth wneud hyn i gyd.

Roeddem yn mesur y cyflymder wrth daflu bisged ci i mewn a mesur faint mor hir roedd yn gymryd i deithio 10 metr lawr yr afon. Roedd pawb yn gweiddi ar ei gilydd i drïo dilyn y fisged ac roedd hyn yn dipyn o hwyl hefyd! Roedd dipyn o bobl yn wlyb erbyn y diwedd ond roedd yn ddiwrnod da iawn gyda pawb wedi cael profiad o sut i wneud astudiaeth afon. Roeddem wedi mesur 12 safle i gyd felly roedd mwy na digon o ddata ar ôl mynd nol i'r ysgol!



Diolch yn fawr iawn Glanllyn a Chymeithas Gwaith Maes am eichcymorth

Paratoi am y tymor nesaf? Beth fydd eich Ysgol chi yn ei wneud fel Gwaith Maes?

Os am gymorth gyda chostau teithio, llenwch ffurflen gais o www.gwaithmaes.org ac ebostiwch ef at ffurf golygyddol@gwaithmaes.org ; efallai mai erthygl gan eich ysgol chi fydd yma'r tro nesaf!